COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023 10:00

Presennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | N Clarke | RJ Collins |
| C L C Davies | S Easterbrook | D T Harrison | M L Hughes |
| D M Hughes | M R John | MJ Kearn | W J Kendall |
| J E Pratt | A Wathan | R Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths a/ac S J Griffiths

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |

Datganiadau o Ddiddordeb

**1. Datganiadau o Fuddiannau**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Datganodd Y Cynghorydd S Easterbrook fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Brynteg.<br><br>Datganodd Mr P Thomas fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Brynteg. Roedd aelodau agos o'i deulu hefyd yn gyn-ddisgyblion yr ysgol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**2. Ymweliadau Safle**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cynnal unrhyw ymweliad safle a gytunir gan y Pwyllgor neu a nodir ymlaen llaw cyn y cyfarfod nesaf gan y Cadeirydd ar 26 Gorffennaf 2023. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**3. Siaradwyr cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd dim siaradwyr cyhoeddus. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**4. Tudalen ddiwygiadau**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyniodd y Cadeirydd y Dudalen Ddiwygiadau fel eitem frys dan Ran 4, Paragraff 4, o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**5. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

| | |
|---|---|
| | |

**6. P/14/838/FUL - Tir i‘r dwyrain o Gwm Felin ac i‘r de o Deras Craig / Teras Ebeneser, Melin Ifan Ddu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8RS**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: (1) Gyda golwg ar y cais uchod, bod yr ymgeisydd yn gwneud Cytundeb Adran 106 i wneud y canlynol:<br><br>i. Darparu 6 uned o dai fforddiadwy i‘w trosglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, gyda‘r math o unedau, eu lleoliad o fewn y safle a‘u daliadaeth fforddiadwy i gael eu cytuno gan y Cyngor.<br><br>ii. Cytuno a gweithredu cynlluniau rheoli ar gyfer cynnal a chadw'r cwrs dŵr presennol yn y dyfodol ar derfyn dwyreiniol y safle datblygu, yr holl systemau draenio storio yn ardaloedd preifat y datblygiad, y gwaith lliniaru sŵn, y mannau agored gan gynnwys y Parthau Amddiffyn Bywyd Gwyllt a phob Gwaith Gwella Ecolegol. Rhaid i’r Awdurdod Cynllunio Lleol roi cytundeb ysgrifenedig ynghylch manylion y Cynllun Rheoli, y Cwmni Rheoli (gan gynnwys cyllido'r Cwmni Rheoli) a'r drefn cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei gyflawni yn barhaol.<br><br>iii. Ymrwymo i Gytundeb Priffyrdd i sicrhau mabwysiadu'r ffyrdd arfaethedig fydd yn gwasanaethu'r safle datblygu.<br><br>(2) Dirprwyo pwerau i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad yn rhoi caniatâd cynllunio gyda golwg ar y cynnig hwn, unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi gwneud y cytundeb Adran 106 y cyfeiriwyd ato uchod, yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu cynnwys yn ei hadroddiad.<br><br>Y Cynnig<br>Codi 28 o anheddau preswyl fforddiadwy, lle parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**7. P/22/811/FUL - Ysgol Gyfun Brynteg, Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3ER**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.<br><br>Y Cynnig<br>Cae hoci newydd gyda glaswellt artiffisial a ffensys rhwyll cysylltiedig ynghyd â goleuadau chwaraeon (i gymryd lle'r cae hoci redgra presennol). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

## 8. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>(1) Nodi'r apêl a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y'i disgrifiwyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.<br><br>(2) Bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol wedi rhoi cyfarwyddyd i wrthod yr Apeliadau a bod y Rhybudd Gorfodi i gael ei gadarnhau yn y gwrthodiad cyntaf isod:-<br><br>i. Rhif yr Apêl – CAS-02104-Z1X1Y3 (1966)<br><br>Testun yr Apêl - Cabanau coed heb awdurdod honedig ar gyfer defnydd cymysg o gabanau gwyliau a defnydd preifat, Fferm Nantmwth Fach, Shwt.<br><br>ii. Rhif yr Apêl – CAS-02105-X9F1N2 (1967)<br><br>Testun yr Apêl - Caban coed heb awdurdod - Newid defnydd sylweddol, Fferm Nantmwth Fach, Shwt.<br><br>iii. Rhif yr Apêl – CAS-02106-M5G1L1 (1968)<br><br>Testun yr Apêl - Cadw Caban Coed i'w ddefnyddio fel caban gwyliau i ddibenion twristiaeth ac adeiladu bloc toiledau a chawod cyfagos arfaethedig, Fferm Nantmwth Fach, Shwt<br><br>(3) Bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apêl ganlynol wedi rhoi |

| | |
|---|---|
| | cyfarwyddyd i ganiatáu'r Apêl, yn ddarostyngedig i'r Amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau:<br><br>Rhif yr Apêl – CAS-02592-K3Y2Z3 (1985)<br><br>Testun yr Apêl - Estyniad Pen To (Diwygiedig) (Ailgyflwyno P/22/152/FUL): 11 Rest Bay Close, Porthcawl. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

## 9. Dirprwyo Caniatâd Adeiladau Rhestredig

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu a Rheoli adroddiad, a'i bwrpas oedd gofyn am gymeradwyaeth i'r newidiadau i'r Cod Ymarfer Cynllunio (CYC) oedd yn angenrheidiol er mwyn i swyddogion y Cyngor allu symud ymlaen i benderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig ar gyfer adeiladau Gradd II heb yr angen i'w hatgyfeirio at Weinidogion Cymru.<br><br>Atgoffodd yr aelodau y dywedwyd wrth yr aelodau, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 9 Ionawr 2023, fod hysbysiad wedi cael ei dderbyn oddi wrth CADW ei fod yn bwriadu Dirprwyo Caniatâd Adeiladau Rhestredig i'r Cyngor yn amodol ar dderbyn nifer o ofynion.<br><br>Nodwyd y gofynion yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y dyddiad uchod, yr oedd copi ohono ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad clawr.<br><br>Roedd yr adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y 9fed o Ionawr yn cynnwys argymhelliad y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cyngor i gytuno i ddiwygio'r Cyfansoddiad fel y disgrifir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol eraill.<br><br>Ar 17 Ionawr 2023 derbyniodd y Cyngor gadarnhad gan CADW o'i fwriad i ddyfarnu dirprwyaeth o 1 Chwefror 2023 yn ffurf Cyfarwyddyd wedi'i lofnodi, yr oedd copi ohono ynghlwm fel Atodiad B ("y Cyfarwyddyd") i'r adroddiad hwn.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cyngor ar 8 Chwefror 2023 a chytunwyd ar y newidiadau angenrheidiol i'r cyfansoddiad. Fel rhan o'r adroddiad hwnnw, hysbyswyd y Cyngor yr adroddid yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am unrhyw newidiadau fyddai'n ofynnol i'r cynllun cyfredol o ddirprwyo i swyddogion, a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel rhan o'r Cod Ymarfer Cynllunio, iddynt hwy ei |

| | |
|---|---|
| | benderfynu.<br><br>Mae'r Cynllun presennol o ddirprwyo i swyddogion yn y Cod Ymarfer Cynllunio (ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad hwn) ac yn cynnwys pwerau i Swyddogion, lle bo hynny'n briodol, i benderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig ar yr amod eu bod yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 13 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.<br><br>Bydd angen newid yn y Cod Ymarfer Cynllunio i ganiatáu i Swyddogion benderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig ar gyfer adeiladau Gradd II heb fod angen atgyfeirio at Weinidogion Cymru, ar unrhyw gais am Ganiatâd Adeiladau Rhestredig, os bydd swyddogion wedi derbyn ac yn glynu wrth gyngor yr Uwch Swyddog Cadwraeth a Dylunio, Moira Lucas.<br><br>Y diwygiad a awgrymir fyddai i Atodlen 1 y Cod Ymarfer Cynllunio, gyda phennawd newydd yn cael ei ychwanegu at Atodlen 1 fel a ganlyn:- “Dirprwyo Caniatâd Adeiladau Rhestredig”. O dan y pennawd hwnnw dylid mewnosod y paragraffau y manylir arnynt ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cynllunio a amlinellir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**10. Cofnod Hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau oedd yn disgrifio'r sesiynau hyfforddi mewn perthynas â'r gwahanol bynciau a amlinellwyd yn yr adroddiad |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**11. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mehefin 2023 |

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023**

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn Time Not Specified